SEMESTER DAU 2021- 2022

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH
ADRAN GWLEIDYDDIAETH RYNGWLADOL

PAPUR ARHOLIAD
GW12520: GLOBALEIDDIO A DATBLYGIAD BYD EANG

Amser a ganiateir: **24 AWR**

Rhaid i chi gyflwyno'ch ateb mewn un ddogfen i'r man cyflwyno yn TurnItIn cyn 12 P.M. (BST) ar y diwrnod ar ôl i'r papur arholiad gael ei ryddhau. Ni fydd gwaith a gyflwynir yn hwyr yn cael ei dderbyn.

Disgwylir i ymgeiswyr ateb DAU gwestiwn. Dylai bob ateb fod yn 750 o eiriau yr un (+/-10%). Peidiwch â chyflwyno deunydd rydych wedi'i gyflwyno o'r blaen.

GALL MYFYRWYR GYFLWYNO ATEBION I'R PAPUR HWN YN Y GYMRAEG NEU'R SAESNEG.

1. Ym maes Cysylltiadau Rhyngwladol, i ba raddau y gellir cymhwyso damcaniaethau Gorllewinol i'r byd An-Orllewinol?

2. 'Ystyriaeth sy'n perthyn i'r gorffennol, yn hytrach na'r presennol, yw trefedigaethedd.' Pam ydych chi'n cytuno/anghytuno â'r datganiad hwn?

3. Ym mha ffyrdd y mae crefydd yn siapio gwleidyddiaeth ryngwladol? Trafodwch, gan roi enghreifftiau.

4. Ym mha ffordd y mae'r cysyniad o 'ffoadur' yn wahanol i'r cysyniad o 'fudwr'? Beth yw arwyddocâd y gwahaniaeth hwn?

5. A yw'r cysyniad o Ddiogelwch Pobl yn fygythiad i’r drefn ryngwladol sy'n seiliedig ar wladwriaethau?
6. Ym mha ffyrdd y mae hil wedi siapio gwleidyddiaeth ryngwladol?
7. Ym mha ffyrdd y mae anghydraddoldeb grym byd-eang yn effeithio ar Iechyd Byd-eang?
8. Pam y mae yn anodd cael ymateb rhyngwladol effeithiol a chadarn i broblem y newid yn yr hinsawdd?